**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/RE/0465/21

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Chwefror 2021

Annwyl Llyr,

Ysgrifennais atoch yn flaenorol i gadarnhau fy mwriad i gyhoeddi trydedd gyllideb atodol ar gyfer 2020-21 ar 9 Chwefror. Roeddwn wedi disgwyl y byddwn yn cael cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch ein setliad terfynol ar gyfer 2020-21 mewn da bryd i baratoi'r drydedd gyllideb atodol erbyn y dyddiad hwn. Fodd bynnag, nid wyf wedi cael yr wybodaeth honno, ac ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, nid oes unrhyw ymrwymiad cadarn o ran pryd y bydd hynny'n digwydd.

Mae'n destun siom nad yw Llywodraeth y DU wedi gallu cadarnhau newidiadau i'r gyllideb ar gyfer Cymru, nac ychwaith hyd yn hyn wedi gallu cynnig cadarnhad o ran unrhyw un o'r elfennau hyblyg ychwanegol y gofynnwyd amdanynt. Oherwydd yr amgylchiadau hyn, yn anffodus ni fyddaf yn gallu paratoi'r drydedd gyllideb a'i chyhoeddi ar 9 Chwefror. Fy mwriad yw ei chyhoeddi erbyn 16 Chwefror fan bellaf, gan gynnig y cynnig ar gyfer y gyllideb atodol ar 9 Mawrth. Er y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer y tair wythnos sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog, byddaf yn gwneud pob ymdrech i gyhoeddi'r gyllideb atodol cyn 16 Chwefror er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r Pwyllgor graffu arni. Rwy'n deall bod y mater hwn wedi effeithio hefyd ar waith y llywodraethau datganoledig eraill o ran adolygu eu cyllidebau a'u hamserlenni hwythau.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.